



SYNIADAU I CYNGOR

30/10/2017





Gwaredu Gwellt

Lleihau'r nifer o wellt a ddefnyddir ar y Campws

Manylion:

Ceisio lleihau'r nifer o wellt plastig gaiff eu defnyddio o fewn y Brifysgol a'ur gymuned leol, yn arbennig yn y Bar. Mae gwelltyn plasig yn cymryd, ar gyfartaledd, 200 mlynedd i bydru, ac maen nhw'n aml yn cyrraedd ein moroedd, ac yn cael effaith niweidiol ar anifeiliaid sy'n byw yn y môr. Dylai'r Brifysgol geisio lleihau ei heffaith ar yr amgylchedd, ac mae hyn yn fordd gymharol hawdd o wneud hynny. Gellir gwneud hyn drwy fod â gwellt y tu ôl i'r bar, a'u cynnig nhw dim ond os oes rhywun yn gofyn amdany'n nhw, y ogystal gweithio gydag UCM ar ymgyrch #GwareduGwellt. O fewn y gymuned, ceisio gweithio gyda chaffis a bariau lleol i leihau'r nifer o wellt a ddefnyddir yn ogystal ag addysgu pobl ynglŷn â'u heffaith, gobeithio.

Cyflawnwyd gan: Matt Poulton





Compostio ar y Campws

Darparu biniau compost y tu allan i lety'r brifysgol

Manylion:

Mae compost yn cynnwys gwastraff gwyrdd (gwastraff bwyd a deunydd organig) ac mae'n llawn maetholion sy'n ardderchog ar gyfer tyfu coed bach a blodau. Un o rinweddau campws Aber yw'r faith bod cryn lawer o blanhigion yn tyfu yma. Felly, mae fy nghynnig yn cynnwys gosod biniau compost ychwanegol y tu allan i lety'r brifysgol, yn ogystal â biniau gwastraff o fewn y neuaddau. Hefyd addysgu pobl ynglŷn ag ilgylchu a gwaredu bwyd h.y. dylid gosod posteri ym mhob llety sy'n eiddo i'r brifysgol. Bydd hyn yn cadw ein campws yn daclus, y ogystal â cynnal y mannau gwyrdd ar ein campysau.

Cyflawnwyd gan: Matt Poulton





Rydyn ni eisiau Llywydd

Newid enw, Datblygu i "Llywydd" er mwyn hwyluso cyfathrebu.

Manylion:

"Ni chyfathrebwyd y newid diweddar yn y Bil Dirymiad Mawr i gorff y myfyrwyr, ac o'r herwydd maen nhw'n aneglur ynglŷn â beth mae Swyddog Datblygu'r Undeb yn ei wneud a phwy yw arweinydd Undeb y Myfyrwyr. Rydyn ni'n cynnig newid teitl er mwyn hwyluso cyfathrebu ac egluro'r strwythur presennol ar gyfer y swyddogion sabothol.

Byddai'r well gan gorff y myfyrwyr fod â Llywydd fel teitl prif swyddog yr Undeb, gan fod y rôl yn cynnwys cadeirio Bwrdd Ymddiriedolwyr UMABer. Cred corff y myfyrwyr hefyd y byddai'n cydymffurfio â strwythurau cyfredol UCM oherwydd mae ganddyn nhw Lywydd Cenedlaethol, felly pam nad oes gennym ni un?

Noda corff y myfyrwyr hefyd fod gennym ni Lywyddion fel arweinwyr pob Clwb Chwaraeon a Chymdeithas, felly byddai'n gweddu i hynny bod â Lywydd fel swyddog sabothol llawn-amser.

Dydyn ni ddim yn argymhell unrhyw newid o ran cylch gorchwyl y rôl, dim ond newid enw syml, gan ddefnyddio'r datrysiadau canlynol:

1. Newid yr enw o ""Swyddog Datblygu'r Undeb"" i "Llywydd" a diweddarau pob polisi perthnasol i adlewyrchu'r newid hwn.
2. Bydd cylch gorchwyl y rôl yn parhau i fod yr un fath.
3. Daw hyn i rym a gyfer yr etholiad arfaethedig ym Mawrth 2018, ar gyfer rolau sabothol 2018/19."

Cyflawnwyd gan: Bruce Gardiner





Gwneud y Gampfa'n Hygyrch 24 Awr y Dydd

Campfa 24 awr

Manylion:

"Mae pawb yn gwybod bod ymarfer corff yn llesol. Ond i rywun sy'n dioddef o iselder dwys a gorbryder, gall olygu'r gwahaniaeth rhwng gallu ymdopi neu deimlo fel pe baech chi'n boddi. Hefyd, ar ddyddiau anodd, nid oes egni a chymhelliant ar gael ond yn hwyr y nos neu yn oriau mân y bore (11pm-5am). Mae llawer o gampfeydd sy'n agor 24 awr y dydd yn cyflogi llai o staff na fyddech chi'n feddwl; weithiau dim ond un aelod staff ar alwad, neu un aelod staff yn gwylio teledu cylch cyfyng. Serch hynny, mae'r buddion i brifysgol sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gallu bod yn sylweddol. Mewn tref mor fach ag Aber, mae llawer o fyfyrwyr, gan gynnwys fi, yn teimlo mai meddyginiaeth yw'r unig ddewis gaiff ei wthio arnom ni, heb fawr ddim cefnogaeth. I'r myfyrwyr hynny sy'n methu deffro yn y bore, ond sy'n dioddef symptomau insomnia dybryd, neu sy'n bryderus y rhan fwyaf o'r amser, gallai mynd i'r gampfa, a chynyddu eu lefelau dopamine a serotonin, olygu newid sylweddol yn lefel eu presenoldeb, canlyniadau a llesiant cyffredinol.

Gyda'r brifysgol yn colli cymaint o arian yn sgil rhoi aelodaeth o'r gampfa am ddim i bob myfyriwr sy'n byw yn eu llety, gallent hyd yn oed godi tâl am y fraint o ddefnyddio'r cyfarpar dros nos. Gellid sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn hyfforddiant gorfodol cyn cael caniatad i ddefnyddio'r gampfa yn ystod oriau'r nos.

Yn y bon, credaf y gellir creu amryw o newidiadau positif drwy ganiatáu i fyfyrwyr ddefnyddio'r gampfa, beth bynnag sy'n eu dal nhw'n ôl yn ystod eu bywydau pob dydd. Dwi'n gobeithio y bydd hyn yn rhywbeth y bydwch chi'n rhoi ystyriaeth wirioneddol iddo, a'ch bod yn edrych ar y sefyllfa o bob cyfeiriad er mwyn sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cam pwysig hwn yn digwydd."

Cyflawnwyd gan: Jebbs Bowers





Mae parthau'n strwythurau caeth; beth am ymestyn eu haelodaeth?

Parthau i bawb!

Manylion:

Mae parthau ar hyn o bryd yn gyfrwng trafod da ar gyfer myfyrwyr sydd am gael eu lleisiau wedi'u clywed, ond mae'r strwythurau presennol ar gyfer aelodaeth yn cyfyngu mynediad o ran y rheiny sy'n gallu mynychu'r cyfarfodydd hyn. Dwi'n cynnig ein bod ni'n diddymu'r cyfyngiadau ac yn caniatáu i unrhyw aelod o gorff y myfyrwyr fynychu'r cyfarfodydd parth hyn.

Cyflawnwyd gan: Bruce Fraser Wight





FfRhA? Dim Diolch

Sicrhau bod y FfRhA yn digwydd er budd myfyrwyr.

Manylion:

"Y FFEITHIAU:

1. Nod y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu (FfRhA) yw bod yn fecanwaith ar gyfer asesu ansawdd addysgu mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU. Mae'n deillio o addewid a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn ystod Etholiad Cyffredinol 2015, ac roedd yn rhan o'u Papur Gwyrdd, dan y teitl ""Gwireddu ein Potensial"".
2. Gall sefydliadau yn y DU optio i mewn i'r FfRhA er mwyn cael eu hasesu ar gyfres o fetrigau (sgôr Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr (ACF), data ar ddargadwedd, data cyflogaeth graddedigion) a chyflwyniad 15 tudalen wedi'i ysgrifennu gan y sefydliad, nad oes rhaid iddo gynnwys cyfraniad gan fyfyrwyr nac undebau myfyrwyr, ar ddisgresiwn y sefydliadau.
3. Caiff y FfRhA ei asesu gan grŵp o academyddion, myfyrwyr ac aseswyr arbenigol ac aelodau'r panel.
4. Caiff sefydliadau eu graddio yn ôl Efydd, Arian neu Aur. Y bwriad gwreiddiol oedd cysylltu'r FfRhA â ffioedd, ond mae cyhoeddiad diweddar i rewi ffioedd yn golygu bod y cysylltiad hwn bellach yn aneglur. Mae'r FfRhA ar hyn o bryd yn gweithredu ar gam 3 (allan o isafswm a awgrymir o 3 cham) ac mae FfRhA ar lefel pwnc yn cael ei dreialu eleni am 2 flynedd. Caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei hasesu yn y FfRhA ar isafswm o 5 credyd astudio.
7. Roedd Prifysgol Aberystwyth yn un o'r ychydig iawn o sefydliadau yng Nghymru i beidio mynd i mewn i FfRhA 2 llynedd, ac roedd Tim Swyddogion UMAber llynedd yn rhan o lunio'r penderfyniad hwn.
8. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi penderfynu cyflwyno cais i'r FfRhA eleni, gyda chefnogaeth Swyddogion UMAber.

BARN Y BOBL:

1. Cred Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) a llawer o undebau myfyrwyr nad yw'r metrigau a ddefnyddir yn y FfRhA yn fesurau cywir o ansawdd addysgu, ac nad oedd rhai ohonynt wedi'u cynllunio i fesur ansawdd addysgu.
2. Mae 76% o fyfyrwyr yn gwrthwynebu'r FfRhA ac nid yw 87% o fyfyrwyr addysg uwch yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng y FfRhA a chynnydd mewn ffioedd dysgu (Save The Student, 2016).
3. Mae ffioedd dysgu eisoes yn £9,000, yn ychwanegol i'r ffaith bod costau byw a chynhaliadau ar gynnydd a bod newidiadau yn y system ar gyfer cymorth ariannol. Gallai cynnydd pellach mewn ffioedd dysgu ddarbwylllo rhai darpar fyfyrwyr rhag gwneud cais am le mewn prifysgol, gan adael eraill mewn mwy o ddyled yn sgil benthyciadau uwch.
4. Mae addysg wedi'i datganoli yng Nghymru, a dylai Llywodraeth Cymru fod yn gallu penderfynu a ddylai'r FfRhA fel y saif fod yn berthnasol yng Nghymru, a ddylai Cymru fod â rhywbeth cyfatebol i'r FfRhA gyda metrigau wedi'u haddasu, ac a ddylai sefydliadau yng Nghymru gael cynyddu ffioedd dysgu.
5. Nid yw 5 credyd yn fesur cywir o ansawdd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a dylid codi'r trothwy i o leiaf 40 credyd.
8. Mae'n bwysig pan fydd Prifysgol Aberystwyth yn mynd ati i ysgrifennu eu cyflwyniad i'r FfRhA, bod Swyddogion UMAber yn rhan o'r cyflwyniad hwnnw, er budd myfyrwyr Aberystwyth.

Y DATRYSIAD:

1. Bydd UMAber yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r FfRhA ac yn galw am fesurau manylach ar gyfer asesu ansawdd addysgu.
2. Buasai UMAber o bosib yn gefnogol i FfRhA yn benodol ar gyfer Cymru, neu gynllun amgen pe bai un ar gael, wedi'i gydlynu gan Lywodraeth Cymru.
4. Cred UMAber y dylai'r isafswm credydau ar gyfer asesu addysg cyfrwng Cymraeg godi o 5 i 40, a byddwn yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i lloïo dros hyn."

Cyflawnwyd gan: Emma Beenham





Disgleirio fel Diamond.

Cefnogi argymhellion Adolygiad Diamond

Manylion:

"Y FFEITHIAU:

- Adolygiad i Gyllido ac Ariannu Myfyrwyr yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond yw Adolygiad Diamond.
- Adroddodd Adolygiad Diamond yn ôl i Lywodraeth Cymru ym Medi 2016, gan wneud argymhellion ar gyfer newid mewn cyllido addysg a chynhaliath myfyrwyr yng Nghymru.
- Ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad Diamond, oedd yn awgrymu pecyn cynhaliath arloesol, fyddai'n mynd i'r afael â chostau bod yn fyfyrwr lle mae'r pwysedd ar ei fwyaf dwys - cynhaliath, costau byw a rhoi cymorth i'r myfyrwyr hynny sydd fwyaf ei angen.
- Mae Adolygiad Diamond hefyd yn gosod allan system gyllido flaengar ar gyfer addysg ran-amser ac ôl-raddedig, yn ogystal â mandadu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i gyhoeddi costau llawn mynd i'r brifysgol er mwyn lleihau effaith costau cudd ar gyrsiau.
- Mae UCM Cymru wedi ymateb i argymhellion Adolygiad Diamond ar ran myfyrwyr yng Nghymru, gan gynnwys mewnbwn gan UMAber ac undebau myfyrwyr ledled Cymru.

BARN Y BOBL:

- Bydd y pecyn cyllido arfaethedig yn ehangu mynediad i addysg uwch a chynyddu'r cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru.
- Mae system gyllido gynhwysol yn bwysig i fyfyrwyr, er mwyn sicrhau'r mynediad mor gyfartal â phosib i addysg uwch, a lleihau'r baich ariannol ar fyfyrwyr, gan gynnwys effaith dyled ar iechyd meddwl myfyrwyr.
- Nid yw'r pecyn cyllido a gynigir yn gwbl berffaith, ac mae llais myfyrwyr yn bwysig mewn awgrymu gwelliannau i'r cynigion.
- Dylai myfyrwyr gael llais ar faterion pwysig sy'n perthyn i'w profiad mewn addysg uwch, yn arbennig o ran cyllido ac effaith newidiadau yn y system gyllido.

Y DATRYSIAD:

- Bydd UMAber yn gefnogol i argymhellion Adolygiad Diamond, gan eu bod yn gosod allan system gynhaliath sydd yn cynnig cymorth ariannol cynyddol i fwy o fyfyrwyr wrth iddynt ymuno â'r system addysg uwch yng Nghymru.
- Bydd UMAber yn gweithio gydag UCM Cymru i lobïo ar welliannau i'r argymhellion, yn arbennig i gynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol o fyfyrwyr (e.e. myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, y rheiny sy'n gadael gofal, myfyrwyr ag anabledau) ac ehangu ymhellach mynediad i'r cymorth sydd ar gael.
- Bydd UMAber yn mynd ati ymgysylltu'n weithredol ar faterion sy'n ymwneud ag Adolygiad Diamond er mwyn sicrhau bod llais myfyrwyr Aberystwyth yn cael ei glywed a'i ystyried."

Cyflawnwyd gan: Emma Beenham





Campws Cysylltiedig Ar-lein

*Wifi - Am ddim - ym mhobman** (Yn Aberystwyth)*

Manylion:

"Wrth i'r byd fynd yn fwyfwy ar-lein, credaf y dylai'r brifysgol yn gyntaf edrych ar gynyddu cyflymder lawrlwytho ar Eduroam a bod â chysylltedd ar-lein cyflawn ar draws yr holl gampws. Efallai pwyntiau wifi ym mhob polyn lamp. Ble bynnag y byddwch chi'n cerdded ar y campws, dylech fod yn gallu mynd ar-lein, gyda mynediad di-dâl i'r rhyngwyd mai Eduroam yn ei roi i gorff y myfyrwyr.

Gan symud hyn ymlaen yn y dyfodol, dylid yn gyntaf sicrhau bod cysylltedd wifi llawn ar gael yn holl lety'r brifysgol ac ym mhob rhan o'r campws.

Gan bod tref Aberystwyth yn fach a bod iddi gysylltiadau clòs â'r brifysgol, dylai'r brifysgol ystyried gwella ei petherthynas â'r dref a cheisio sefydlu cysylltedd gyflawn o fewn y dref; dylai weithio'n fwy clòs â Chyngor Sir Ceredigion ar y mater hwn."

Cyflawnwyd gan: Bruce Fraser Wight

